# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth Ychwanegol at y Datganiad ar Drefniadau'r Cynulliad ar gyfer Cydweithio â Busnes a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ym Mehefin 2006

**At Christine Chapman:**

Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mai ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cydweithio â busnes codasoch nifer o bwyntiau ynghylch dylanwad Llywodraeth y Cynulliad ar faterion anabledd a busnes. Ysgrifennaf atoch i ymateb.

Mae fy Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn weithgar wrth gefnogi'r strategaeth mentrau cymdeithasol. Yr ydym wedi ymrwymo i wella ansawdd y cymorth busnes sydd ar gael i fentrau cymdeithasol. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2005/06), daeth 208 o ymgynghorwyr busnes a rheolwyr cleientiaid i weithdai deuddydd i ddod i ddeall anghenion cymorth mentrau cymdeithasol yn well. Cynhelir cyrsiau eraill eleni yn ôl y gofyn.

Yn yr un cyfnod, o dan ein rhaglen cychwyn busnesau newydd, yr ydym wedi darparu cymorth drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru i sefydlu 20 o fentrau cymdeithasol newydd. Mae 12 o'r rhain wedi'u lleoli yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Ym mis Chwefror eleni yng Nghaernarfon a Rhydaman cynhaliwyd dau ddosbarth meistr deuddydd ar gyfer arweinwyr mentrau cymdeithasol. Jerr Boschee, yr arbenigwr ysbrydoledig ar fentrau cymdeithasol a sefydlydd yr Institute of Social Entrepreneurs yn Minnesota oedd yn arwain y dosbarthiadau hyn. Daeth 75 o arweinwyr mentrau cymdeithasol Cymru i'r dosbarthiadau a chafodd 10 sefydliad ymgynghoriad un wrth un.

Prif ffynhonnell cyfleoedd newydd a chynyddu'r busnes i fentrau cymdeithasol yw tendro ar gyfer contractau'r sector cyhoeddus. Cofrestrwyd 56 menter ar wefan sell2wales ac yn ddiweddarach eleni byddwn yn darparu pedwar gweithdy arbenigol ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd yn dymuno gwella'u sgiliau tendro.

Mae prosiect cydraddoldeb busnesau bach a chanolig wedi gweithio â thros 2,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Diben y prosiect hwn yw hyrwyddo rhoi mwy o bris ar amrywiaeth yn y gweithle mewn BBaCh yng Nghymru. Ar ôl iddynt dderbyn cyfnod o ddatblygu gan y prosiect, defnyddir y cwmnïau fel enghreifftiau o'r arferion gorau. Defnyddir y rhain i argyhoeddi sefydliadau eraill tebyg ynghylch y manteision a geir yn sgil cyflogi pobl o gefndiroedd amrywiol ac o wahanol grwpiau demograffig. Y prif linynnau cydraddoldeb sy'n ganolbwynt i waith y prosiect yw: anabledd, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chredo, oedran, yr iaith Gymraeg, maint a chyn-droseddwyr.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gweithio'n agos iawn â'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth ddatblygu'r fenter 'Llwybrau at Waith', sydd ar gynllun peilot ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf ar gyfer cwsmeriaid budd-dal analluogrwydd newydd a hen. Mae'r cynlluniau peilot yn cael eu hariannu'n llawn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys 'Rhaglen Rheoli Cyflwr' sy'n cael ei chynnal gan y GIG, mewn partneriaeth â Chanolfan Byd Gwaith, sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth iechyd arbenigol yng nghyd-destun gwaith.

Yr ardaloedd eraill sydd dan y cynllun peilot o Ebrill 2006 yw ardal Canolfan Byd Gwaith de-orllewin Cymru, sy'n cynnwys sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell Nedd Port Talbot, sir Benfro ac Abertawe ac, o fis Hydref, bydd Canolfan Byd Gwaith Cymoedd de Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful yn ogystal â'r ardaloedd peilot presennol.

Mae Awyddus i Weithio yn rhaglen ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Ganolfan Byd Gwaith, sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y bobl hynny sydd yn hawlio budd-dal ar hyn o bryd (budd-dal analluogrwydd yn bennaf ond nid yn unig) i'w helpu, os ydynt wedi mynegi diddordeb mewn dod o hyd i waith, i symud yn wirfoddol i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Mae Awyddus i Weithio yn cynnig cefnogaeth ymgynghorydd personol Canolfan Byd Gwaith a phecyn ariannol mwy sydd yn cynnwys premiwm paratoi at waith a chredyd dychwelyd i waith. Ar ôl cael hyd i waith, gall y rhai sydd â phroblem iechyd sydd yn cyfyngu ar eu gwaith gael cyngor gan weithiwr proffesiynol ym maes iechyd fydd yn cydweithio ag ymgynghorwyr Canolfan Byd Gwaith.

**Gwybodaeth ychwanegol at yr ymateb i'r Ddadl Fer 'Ennyn Diddordeb Pobl Ifanc Heddiw: Pleidlais yn 16?' a gyhoeddwyd gan Christine Chapman, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ym Mehefin 2006**

**At Peter Black:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, Ennyn Diddordeb Pobl Ifanc Heddiw: Pleidlais yn 16?', ar 24 Mai, cyfeiriasoch at y posibilrwydd o ymweld ag Ynys Manaw i fonitro effaith y newid deddfwriaeth yno yn ddiweddar sydd yn gadael i rai 16 ac 17 oed bleidleisio.

Mae'r ddeddfwriaeth Registration of Electors Bill wedi mynd drwy'r holl gamau angenrheidiol yn y Tynwald yn Ynys Manaw a bellach mae yn yr Adran Materion Cyfansoddiadol er mwyn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd o gwbl y bydd yn derbyn y Cydsyniad Brenhinol mewn pryd ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf yr House of Keys sydd i'w gynnal ym mis Tachwedd 2006.

Os cyhoeddir y ddeddfwriaeth mewn pryd, gofynnaf i'm swyddogion lunio adroddiad ar brofiadau Ynys Manaw ar ôl etholiadau Tachwedd.